Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

SWYDDOG LLYWODRAETHU GWYBODAETH

GRADD 11: CYFLOG: £37,938 - £38,626
37 AWR YR WYTHNOS
RHIF Y SWYDD: 505285
DROS DRO – 12 MIS

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth newydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol, a leolir ym Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth i ddarparu cyfeiriad, cefnogaeth a chyngor i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth mewn materion yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GPDR) Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA), Rheoliadau Preifatrwydd ac Electronig (PECR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn rhoi cyngor i'r sefydliad ar faterion yn ymwneud â rheoli gwybodaeth yn effeithiol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gadw a gwaredu cofnodion, rhannu gwybodaeth a datgelu gwybodaeth.

Noder: Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Ceir manylion llawn am y rôl yn y Swydd Ddisgrifiad a'r Manyleb Person ond os oes gennych unrhyw ymholiadau mae croeso i chi gysylltu â'n Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth drwy law e-bost c-landeg-john@decymru-tan.gov.uk

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld manteision gweithio gyda ni, ewch i: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/buddion/

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 ganol dydd, 16/12/2024**. Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/ Os oes angen fersiwn papur, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais wneud cais drwy ei borth, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

Cyflogwr Cyflog Byw

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG